adnabod awdur

ALYS JONES

Roeddwn i'n mwynhau darllen ac ysgrifennu pan oeddwn i'n ifanc iawn. Pan oeddwn ar fy mlwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd, mi ddigwyddais ysgrifennu stori go faith a chofiaf i'r athro frolio dipyn go lew arni. Synnwn i ddim nad oedd yr uchelgais i ysgrifennu wedi ei phlannu ynof yr adeg honno.

Mi fyddwn i'n rwdlian ysgrifennu o hyd yn y cyfnod pan oeddwn yn yr ysgol uwchradd, ac yn cael pleser wrth wneud hynny. Mi gyfansoddais ddwsinau o gerddi a chychwyn ysgrifennu peth wmbredd o ddramâu na chafodd neb arall eu darllen. Roeddwn i'n mwynhau ysgrifennu stori yn y gwersi, a dyna'r unig waith cartref a wnawn yn ddirwgnach.

Pan oeddwn i'n dechrau gweithio fel athrawes, cwyn y plant o hyd oedd nad oedd hanner digon o ddewis o lyfrau Cymraeg da. Roedd gen i gydymdeimlad â nhw. Cofiwn am fy ymweliadau â llyfrgell yr ysgol pan oeddwn i'n blentyn, a'r frwydr i gael gafael ar lyfr da pan oedd tua deg ar hugain o blant fel locustiaid o gwmpas y silffoedd. Efallai mai un o'r rhesymau pam y dechreuais ysgrifennu oedd yr awydd i roi un neu ddau yn rhagor o lyfrau ar silff llyfrgell yr ysgol.

Dechreuais ysgrifennu pan roddais y gorau i weithio i fagu plant. Enid Blyton roddai wefr i mi yn ddarllenwr ifanc, ac mae'n sicr fod dylanwad ei llyfrau antur ar fy llyfr cyntaf, *Ysbrydion y Môr*. Byddwn yn dweud storïau wrth y plant amser gwely, ac mae nifer ohonynt erbyn hyn wedi eu cyhoeddi.

Byddaf yn ysgrifennu pan deimlaf awydd gwneud hynny, a phan gaf gyfle. Bydd syniadau am stori yn sboncio i fy mhen yn ddirybudd. Weithiau, lle ydy'r sbardun, dro arall cymeriad a thro arall dim ond enw. Yr hwyl ydy gweu'r stori o gwmpas y sbardun hwnnw.

Alys Fowler.